AMDDIFFYN LLANYSTUMDWY

d/o Yr Hendre,
Llanystumdwy,
Cricieth,
Gwynedd. LL52 0SG

29 Hydref, 2007

Trwy Law at yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas

Annwyl Dafydd,

Llythyr yw hwn i ddatgan i chi boendod carfan fechan o'ch etholwyr, sydd wedi pleidleisio i Blaid Cymru yn rheolaidd ymhob etholiad, rhai yn aelodau o'r Blaid, rhai ddim.

Sail ein poendod yw'r ffordd y mae grŵp rheoli Cyngor Gwynedd wedi ymdrin â mater aildrefnu addysg gynradd yn y sir, ac hefyd yr amcanion a roddir ymlaen ganddynt, y ddwy elfen, mewn ffordd, yn groes i ethos Plaid Cymru a'r hyn a fyddem yn ei ddisgwyl gan blaid yr ydym wedi'i chefnogi ers amser maith.

Yn yr ardal hon yn benodol rydym wedi ein syfrdanu gan benderfyniad Cyngor Gwynedd i argymell cau ysgol Llanystumdwy - ysgol sydd yn llewyrchus o ran nifer y disgyblion, safon yr addysg a'i lle canolog ym mywyd yr holl ardal.

Cymerwn, os nad yw Plaid Cymru *(The Party of Wales)* yn gyffredinol yn condemnio'r uchod, neu fan leiaf yn ceisio dwyn pwysau ar arweinwyr Gwynedd, fod cefnogaeth gyffredinol o fewn y Parti i'r cynnwys a'r ffordd o weithredu.

Perygl mawr hyn yw i Blaid Cymru golli gafael ar bob lefel o gynrychiolaeth wleidyddol, ar ei chadarnleoedd traddodiadol, wrth i etholwyr a chefnogwyr gwestiynu ymroddiad Plaid Cymru i gymunedau Gwynedd wledig.

Dim ond ychydig iawn o'r rhai sy'n gysylltiedig ag un ysgol sydd wedi arwyddo'r llythyr hwn. Gwyddir fod teimladau cyffelyb mewn nifer o ardaloedd eraill sy'n ffurfio rhan helaeth o Etholaeth Meirionnydd /Dwyfor.

Diolch i chwi am gymryd amser i ddarllen ac ystyried y llythyr hwn. Erfynwn am eich cymorth i achub ein hysgol, ein cymuned a'r Blaid yr ydym yn ei chefnogi.

Yn gywir,

Awen Hamilton
ar ran Grŵp Amddiffyn Llanystumdwy.